



Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru

Cyfarfod rhithwir

Dydd Iau 24 Mehefin 2021

Cofnodion

Yn bresennol

Mark Drakeford AS	Prif Weinidog Cymru (Cadeirydd)
Jane Hutt AS	Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Y Gwir Anrh Simon Hart	AS y DU Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Amy Rees	Cyfarwyddwr Cyffredinol y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru
Chris Jennings	Cyfarwyddwr Gweithredol Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi
Chris Batchelor	Dirprwy Bennaeth yr Uned Undeb, Datganoli a Gwell Rheoleiddio
Kirsty Stevenson	(Arsylwr o'r Swyddfa Gartref)
Reg Kilpatrick	Cyfarwyddwr Cyffredinol Cydgysylltu Argyfwng COVID-19
Karin Phillips	Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru
Tracey Burke	Cyfarwyddwr Cyffredinol Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Andrew Goodall	Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd/Prif Weithredwr y GIG, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Sian Jones	Pennaeth Cefnogi Cyflawniad a Diogelu
Catrin Dowling	Pennaeth Troseddau a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru
Tracey Breheny	Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Cyffuriau a Grwpiau sy'n Agored i Niwed
Siân Brown	Uwch Reolwr y Tîm Troseddau a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru
Jayne Phillips	Tîm Troseddau a Chyfiawnder
Leanne Lewis	Tîm Troseddau a Chyfiawnder
Hannah Packham-Smith	Tîm Troseddau a Chyfiawnder
Jeff Cuthbert	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Gwent
Eleri Thomas	Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau Gwent
Stephen Hughes	Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru
Alun Michael	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru
Emma Wools	Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru
Lee Jones	Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru
Cerith Thomas	Swyddog Cyswllt Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau
Claire Parmenter	Prif Gwnstabl Dros Dro Heddlu Dyfed Powys
Amanda Blakeman	Dirprwy Brif Gwnstabl Heddlu Gwent
Carl Foulkes	Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru
Rachel Bacon	Dirprwy Brif Gwnstabl Heddlu De Cymru
Tracey Cooper	Iechyd Cyhoeddus Cymru

Not protectively marked – Heb farc gwarchod

Joanne Hopkins	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Lara Snowdon	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Vicky Jones	(Arsylwr o Iechyd Cyhoeddus Cymru)
Jon Drake	Cyfarwyddwr Uned Atal Trais Cymru
Chris Llywelyn	Prif Weithredwr CLILC
Naomi Alleyne	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai CLILC
Paul Morris	Pennaeth Uned Gyswllt yr Heddlu Llywodraeth Cymru
Helen Hill	Gweinyddwr Uned Gyswllt yr Heddlu

Ymddiheuriadau

Dafydd Llywelyn	Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Dyfed Powys
Carys Morgans	Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Dyfed Powys
Andrew Dunbobbin	Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Siân Curley	Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent
Pam Kelly	Prif Gwnstabl Heddlu Gwent
Jeremy Vaughan	Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru
Asim Hafeez	Dirprwy Gyfarwyddwr, Uned Gwell Rheoleiddio, Trawsbynciol, Datganoli a Chymru, y Swyddfa Gartref
Y Cyngh Neil Moore	CLILC
Ella Rabaiotti	Pennaeth Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru CLILC

Materion yn codi o'r cyfarfod	
1: Gwahodd yr Arglwydd Ganghellor Robert Buckland i gyfarfod yn y dyfodol ar adeg sy'n gyfleus i bawb.	PM
2: Paul Morris a Karin Phillips i ddrafftio rhaglen waith i lywio themâu Partneriaeth Plismona Cymru.	PM/KP
3: Atal Trais i fod yn rhan o Raglen Waith BPPC	PM
4: Jane Hutt, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, a DPCC Wools i weithio gyda Jon Drake i edrych ar gynnwys ychwanegol a ffordd ymlaen ar gyfer Glasbrint Atal Trais.	JH/EW
5: DPCC Eleri Thomas i sicrhau bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn rhan o'r adolygiad o Wasanaethau Trais Rhywiol ac Ymosodiadau Rhywiol	ET

1. **Gair o Groeso ac Anerchiad gan y Cadeirydd**
 - 1.1 Croesawodd Prif Weinidog Cymru yr holl aelodau i gyfarfod y Bwrdd, gan gydnabod mai hwn oedd y cyfarfod cyntaf ers etholiadau Senedd Cymru a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd.
 - 1.2 Cafodd Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd a ailetholwyd eu llongyfarch, ynghyd â Chomisiynydd newydd sbon Gogledd Cymru, Andrew Dunbobbin, yn ei absenoldeb.

- 1.3 Hefyd, cydnabuwyd y byddai'r AS Jane Hutt, sydd bellach yn Weinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, yn parhau'n Weinidog yn gyfrifol am gyswllt dyddiol â Phlismaona yng Nghymru.
2. **Sylwadau gan y Gwir Anrh Simon Hart AS y DU, Ysgrifennydd Gwladol Cymru**
- 2.1 Rhannwyd papur diweddarau oddi wrth y Swyddfa Gartref ag aelodau cyn y cyfarfod. Tynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol sylw at ambell faes roedd am ganolbwyntio arno'n benodol sef:
- 2.1.1 Yr Ardoll Brentisiaethau: Roedd yn edifar gan yr Ysgrifennydd Gwladol gadarnhau nad oedd y mater hwn wedi'i ddatrys eto, ond y bu peth datblygiad i'r cyfeiriad hwnnw. Byddai cyswllt rheolaidd â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddau arweiniol Plismaona yng Nghymru yn parhau wrth i'r mater hwn fynd rhagddo.
- 2.1.2 Recriwtio Swyddogion yr Heddlu: Nodwyd bod yr ymarfer recriwtio yng Nghymru yn mynd rhagddo'n dda.
- 2.1.3 Ymchwiliad i drais rhywiol a thrais yn erbyn menywod a merched: Ategwyd pryderon diweddar a godwyd yn y cyfryngau ynghylch y cyfraddau erlyn isel yn y Senedd ac ymhlith yr heddluoedd. Mae'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref yn ymchwilio i'r mater ac mae gan yr Arglwydd Ganghellor ran bwysig i'w chwarae yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd.
- 2.1.4 Yr Arglwydd Ganghellor Robert Buckland: Nodwyd bod yr Arglwydd Ganghellor yn edrych ar yr anawsterau sydd ynghlwm wrth erlyn achosion o drais rhywiol a thrais yn erbyn menywod a merched a'i fod wedi dangos diddordeb mewn dod i gyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol lle y gellid rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am y mater hwn.
Cam Gweithredu 1: Gwahodd yr Arglwydd Ganghellor Robert Buckland i gyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol.
- 2.2 Roedd Comisiynydd yr Heddlu De Cymru, Alun Michael, yn cydnabod, er nad oedd cyfraddau erlyn trais rhywiol yn foddhaol ledled Cymru a Lloegr, fod y cyfraddau yng Nghymru yn well na rhanbarthau eraill yn Lloegr.
- 2.3 Mae Prif Erlynydd y Goron wedi ymateb yn gadarnhaol i'r hyn y gellir ei wneud yng Nghymru ac mae'n faes i ganolbwyntio arno ar gyfer partneriaid Cyfiawnder Troseddol ehangach ledled Cymru.
- 2.4 Croesawodd Plismaona yng Nghymru y cynnig i'r Arglwydd Ganghellor ddod i gyfarfod yn y dyfodol a chafodd ei ddiddordeb yn y mater hwn groeso cynnes ond pwysleisiwyd bod Cymru eisoes yn symud ymlaen yn rhagweithiol i fynd i'r afael â'r lluo o faterion a oedd yn gysylltiedig â chyfraddau erlyn isel.

- 2.5 Roedd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, Jane Hutt, hefyd o blaid gwahodd yr Arglwydd Ganghellor i ddod i gyfarfod yn y dyfodol a chytunodd fod yr ystadegau yn bryderus iawn, Eglurodd fod VAWDASV yn edrych ar y Glasbrintiau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf ac y byddai'r cyfle i ymgysylltu â'r holl strategaethau cysylltiedig yn cael ei groesawu.
- 2.6 Dywedodd Comisiynydd Gwent, Jeff Cuthbert, ei fod yn falch o glywed y bu peth datblygiad o ran cyllido'r Ardoll Brentisiaethau ond tanlinellodd natur ddybryd y sefyllfa.
- 2.7 Croesawodd SoSfW ddiweddariad gan Amy Rees lle tynnodd sylw at y pedair blaenoriaeth a nodwyd drwy Fwrdd Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru gyda ffocws ar Ddioddefwyr a Thystion. Eglurodd fod Cymru yn arwain y ffordd a bod ymgysylltu rheolaidd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i sicrhau tryloywder a chydweithredu cryf.
3. **Mae'r Etholiadau diweddar wedi rhoi mandad newydd i Weinidogion ac ar yr un diwrnod fandad newydd i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yng Nghymru. Mae hynny'n golygu ei bod hi'n amserol ystyried blaenoriaethau ar y cyd a diben Plismona yng Nghymru a Llywodraeth Cymru – trafodaeth (y Cadeirydd i gyflwyno'r Rhaglen Lywodraethu a'r Comisiynydd Michael a'r CC Foulkes i gyflwyno blaenoriaethau plismona Cymru)**
- 3.1 Nododd y Prif Weinidog mai hwn oedd cyfarfod cyntaf y Bwrdd ers etholiadau Llywodraeth Cymru a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a gwnaeth longyfarch y Comisiynwyr; roedd hefyd yn falch o gadarnhau y byddai Jane Hutt yn parhau fel arweinydd yr Heddlu a Chyfiawnder Troseddol yn ei swydd Weinidogol newydd ar gyfer Cyfiawnder Cymdeithasol.
- 3.2 Mae'r Rhaglen Lywodraethu wedi cael ei chyhoeddi bellach gan ddwyn ynghyd ymrwymïadau a blaenoriaethau manifesto ar gyfer Llywodraeth Cymru sy'n cydnabod natur drawsbynciol llawer o faterion.
- 3.3 Tynnodd y Gweinidog Jane Hutt sylw at y tair blaenoriaeth allweddol ganlynol:
- Digartrefedd - gyda chysylltiad penodol â gwneud dinasoedd, trefi a phentrefi yn lle gwell i fyw a gweithio
 - Iechyd Meddwl - edrych ar faterion rhwng y cenedlaethau a sut rydym yn mynd i'r afael â'r rhain
 - Camddefnyddio Sylweddau - gyda diddordeb penodol yn rôl yr heddlu yn y defnydd o Naloxone

- 3.4 Gwnaeth y Comisiynydd Alun Michael ddiolch i'r Prif Weinidog am ariannu'n llawn 500 yn rhagor o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu Llywodraeth Cymru, ac addo 100 yn rhagor. Nododd Mr Michael fod heddluoedd yn gweithio ar recriwtio a, gyda chyllid, roeddent yn disgwyl cyflawni'r niferoedd erbyn dechrau 2022.
- 3.5 Mae Plismona yng Nghymru wedi ceisio drafftio Rhaglen o faterion allweddol i'w hystyried gan Gomisiynwyr a Phrif Swyddogion cyn ei rhannu'n ehangach ag aelodau'r Bwrdd fel cynnig ynghylch sut i lywio trafodaethau'r bwrdd yn y dyfodol, gan ystyried y Rhaglen Lywodraethu a blaenoriaethu Plismona.
- 3.6 Defnyddiodd y Comisiynydd Michael blant a gedwir yn y ddalfa fel enghraifft o'r modd y mae materion o'r fath mor rhyng-gysylltiedig ac na ellir mynd i'r afael â nhw ar wahân. Mae holl aelodau'r Bwrdd yn derbyn ac yn cytuno na ddylai plant gael eu cadw yn y ddalfa ond mae'r ateb i ddatrys y broblem mor drawsbynciol ei bod hi wedi cymryd sawl blwyddyn i gael ateb derbyniol, ynghyd â gwaith ymgysylltu a staff ymroddedig i wthio'r agenda ar gyfer newid. Nodwyd ei bod yn ymddangos bod newid ar droed bellach, ond mae llawer o waith i'w wneud o hyd ac mae wedi dangos bod angen i holl adrannau Llywodraeth Cymru gydweithio a bod angen gweithio gyda llawer o randdeiliaid er mwyn dod o hyd i ateb.
- 3.7 Roedd y Comisiynydd Michael yn cytuno bod y canlynol ymhlith y blaenoriaethau y mae'r Comisiynwyr yn parhau i'w pwysleisio, sef:
- Camddefnyddio Sylweddau
 - Iechyd Meddwl
- 3.8 Hefyd nododd Mr Michael, er mwyn sicrhau, ledled Cymru, fod cymunedau diogel a hyderus, fod angen:
- 3.8.1 Cydweithredu a Chydgyfeirio - defnyddiwyd y gydberthynas rhwng yr 8 Corfforaeth Undyn fel enghraifft o sefyllfa lle y gwnaeth cydberthnasau personol olygu, er gwaethaf anghytundebau, fod cyd-ddealltwriaeth o'r angen i wneud pethau'n well, gan arwain at ymgysylltu ystyrion a chynnydd. Yn ehangach mae'r pandemig wedi tanlinellu'r angen i weithio'n agosach a llwyddiant hynny.
- 3.8.2 Arweinyddiaeth Weinidogol - Gyda'r agenda Un Gwasanaeth Cyhoeddus, gwnaeth Mr Michael ganmol arweinyddiaeth a pharodrwydd Gweinidogion Cymru i gadeirio Byrddau a sefydlu Grwpiau Gorchwyl a Gorffen er mwyn sicrhau bod partneriaid yn siarad mewn ffordd atebol ac yn seiliedig ar lywio newid mewn ffordd ystyrion a chynaliadwy.
- 3.8.3 Timau gorfodi - mae cyfrifoldeb a rennir, arbenigedd a rennir, adnoddau a rennir yn hanfodol i fynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar bob partner yn llwyddiannus a byddai adeiladu ar lwyddiannau'r cyd-dimau gorfodi mewn meysydd eraill yn allweddol.

- 3.8.4 Cydweithredu - Mae gan y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru gydgysylltydd erbyn hyn ac mae ei gwaith yn tanlinellu, drwy ddwyn ynghyd yr egni a'r dyhead i weithio gyda'n gilydd, ac ymgysylltu â gwerthoedd a dyheadau a rennir, fod llwyddiant lleihau'r ôl-groniadau o achosion llys yng Nghymru yn enghraifft o'r ffordd y gellir goresgyn anawsterau drwy gydweithio.
- 3.8.5 Gwerthoedd a rennir - Thema sy'n berthnasol i'r holl bwyntiau hyn i wneud gwahaniaeth gwirioneddol, a gwneud bywydau pobl yng Nghymru yn well ac yn fwy diogel.
- 3.8.6 Arweinyddiaeth Wasgaredig - Tanlinellu pwysigrwydd sicrhau bod pob aelod o staff, sut bynnag mae'n perthyn i sefydliad, yn teimlo ei fod wedi'i gefnogi i wneud awgrymiadau, bod yn ymatebol a chynnig mesurau ataliol er mwyn newid er gwell.
- 3.9 Mae'r heddluoedd yn chwarae rhan bwysig yn y Rhwydwaith Diogelwch Cymunedol ac mae Swyddogion Cyswllt ag Ysgolion yn cydnabod pwysigrwydd Plismona yn y Gymdogaeth a gwaith ymgysylltu ar lawr gwlad.
- 3.10 Gwnaeth y Prif Gwnstabl Carl Foulkes ddiolch i'r Gweinidog a'r Comisiynydd Michael am eu cyfraniadau ac ychwanegodd y blaenoriaethau canlynol o safbwynt Plismona Gweithredol:
- Camddefnyddio Sylweddau – datblygu trefniadau partneriaeth
 - Iechyd Meddwl – Cynnig cymorth ar adeg argyfwng. Cytunwyd bod camau breision wedi'u cymryd, ond bod cymaint yn fwy i'w wneud o hyd.
 - Trais Treisgar / Trais yn erbyn Menywod a Merched - Mae angen gweithio'n agosach ac yn well gyda phartneriaid, ac mae angen deialog onest ynghylch lle mae pawb am fod a sut y gallwn gyrraedd y man hwnnw gyda'n gilydd.
 - Atal - mae angen adeiladu ar waith gwych rhaglenni Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a Camau Cynnar Gyda'n Gilydd a defnyddio dull iechyd y cyhoedd mewn meysydd lle mae'r niwed trawsbynciol yn effeithio ar bob partner.
 - Amrywiaeth, Cynhwysiant a Chydraddoldeb - maes lle mae cryn dipyn o waith yn mynd rhagddo, ond lle gallwn a lle mae'n rhaid gwneud mwy.
- 3.11 Trafodwyd y defnydd o Naloxone trwynol yn y bar sgwrsio yn ystod y cyfarfod lle cadarnhawyd bod gwerthusiad rhaglen beilot Gogledd Cymru wedi'i rannu â heddluoedd eraill yng Nghymru, a bwriedir ei chyflwyno ledled Cymru bellach.
- 3.12 Nododd y Comisiynydd Cuthbert fod angen dirfawr i gydweithio ag Iechyd, yn arbennig ym maes Iechyd Meddwl sy'n cyfrif am ganran mor uchel o alwadau i'r heddlu.

- 3.13 Cafodd Cydlyniant Cymunedol ei gydnabod fel yr hyn a oedd yn allweddol i ddiogelu cymunedau a'i fod yn mynnu cydberthnasau gwaith da.
- 3.14 Dileu Amddiffyniad Cosb Resymol, darn o ddeddfwriaeth sydd wedi dangos yr angen am bartneriaeth. Nodwyd nad oes ots gan y cyhoedd ai dyletswydd wedi'i chadw'n ôl ydyw ai peidio ond, yn gwbl gyfiawn, ei fod yn disgwyl i'r bobl wrth y llyw roi trefn ar y mater yn syml iawn.
- 3.15 Defnyddiwyd newidiadau i ddeddfwriaeth ar barthau 20mya/ 50mya fel enghreifftiau o'r ffordd y mae angen i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â'r heddlu cyn gynted â phosibl oherwydd y gall y newidiadau deddfwriaethol a wneir gan y Llywodraeth arwain at oblygiadau mawr i'r heddlu.
- 3.16 Gwnaeth Jo Hopkins ddiolch i Mr Michael am gydnabod pwysigrwydd dull lechyd y Cyhoedd mewn lleoliad Plismona. Roedd Jo yn cydnabod y momentwm a adeiladwyd hyd yn hyn ond roedd yn teimlo bod angen dod ynghyd nawr mewn ffordd integredig i wneud y newidiadau gofynnol wrth symud ymlaen.
- 3.17 Mae angen ystyried gwaith ar niwed ehangach; hyfforddiant ar sut i fod yn fwy gwydn a thrwy ddod â phobl ynghyd yn y gymuned, deall beth sy'n gweithio a sut i adeiladu arno.
- 3.18 Dywedodd Chris Llewelyn y byddai cydweithwyr Llywodraeth Leol yn cael eu cyfle cyntaf i drafod y Rhaglen Lywodraethu â'r Prif Weinidog y diwrnod ar ôl y cyfarfod. Fodd bynnag, roedd yr adborth roedd wedi'i gael hyd yn hyn wedi bod yn gadarnhaol. O ran y blaenoriaethau a amlinellwyd gan y Gweinidog, er nad oedd yn amlwg wedi siarad â chydweithwyr, nododd Mr Llewelyn ei bod hi'n debygol iawn y byddai cynghorwyr yn cefnogi'r tri maes a nodwyd ganddi'n llawn:
- Digartrefedd
 - lechyd Meddwl
 - Camddefnyddio Sylweddau
- 3.19 Dywedodd Mr Llywelyn, wrth ddyfynnu, ein bod yn cyflawni'r canlyniad gorau i Gymru pan fo gwahanol haenau'r Llywodraeth yn cydweithio'n effeithiol.
- 3.20 Tanlinellodd Tracey Cooper bwysigrwydd adeiladu ar y cydberthnasau a sefydlwyd eisoes a faint o'r hyn a ddywedwyd eisoes sy'n bwydo i mewn i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).
- 3.21 Trafodwyd gwaith yn ymwneud â Fframwaith Cydraddoldeb lechyd Cymru lle mae'r grwpiau sy'n wynebu'r risg fwyaf wedi'u cydnabod. Nodwyd bod y canlyniadau yn anghymesur ond ddim yn syndod ac y byddent yn cael eu gweld mewn profiadau o ymwneud â phob rhan o'r sector cyhoeddus.

- 3.22 Pwysleisiodd Tracey, yng nghyd-destun niwed a gronnir, fod 42% o oedolion yn dweud bod eu Hiechyd Meddwl yn waeth nawr na chyn y pandemig, gan ddangos yr angen i gymunedau fod yn fwy cydnerth.
- 3.23 Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru nifer o feysydd â blaenoriaeth:
- Plant a Phobl Ifanc
 - Iechyd Meddwl a Llesiant
 - Mynediad at ofal
 - Grwpiau Agored i Niwed
 - Lleihau anghydraddoldebau iechyd
- 3.24 Eglurodd Tracey fod gwaith ailstrwythuro yn mynd rhagddo er mwyn ysgogi partneriaid cefnogol.
- 3.25 Cadarnhaodd Chris Jennings y byddai'r blaenoriaethau a restrwyd gan y Gweinidog yr un peth â blaenoriaethau allweddol HMPPS hefyd:
- Digartrefedd
 - Camddefnyddio Sylweddau
 - Iechyd Meddwl
- 3.26 Gwnaeth Prif Weinidog Cymru ddiolch i'r Gweinidog, y Comisiynydd Michael a CC Foulkes am eu diweddariadau, ac i bawb a wnaeth gyfrannu at y drafodaeth.
- 3.27 Gofynnodd y Prif Weinidog i swyddogion lunio rhaglen waith a all fod yn sail i ddogfen i lywio cynnydd ystyrion a rhagweithiol drwy'r Bwrdd hwn.
Cam Gweithredu 2: Paul Morris a Karin Phillips i ddrafftio rhaglen waith i lywio themâu Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru.
- 3.28 Myfyriodd y Prif Weinidog ar Gomisiwn Thomas a'i bod yn drueni bod yr adroddiad wedi'i gyhoeddi wrth i COVID-19 ddod i'r amlwg, ac felly na chafodd y sylw roedd yn ei haeddu.
- 3.29 Fodd bynnag, mae'r Tîm Trawsnewid Cyfiawnder wedi cael ei ailsefydlu a bydd y Cwnsler Cyffredinol Mick Antoniw AS yn cadeirio Is-bwyllgor Cyfiawnder i oruchwylio datblygiadau (bydd y Prif Weinidog a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol hefyd yn bresennol).
- 3.30 Gwnaeth y Prif Weinidog gydnabod bod y Comisiwn Thomas yn glir y dylai Cyfiawnder Troseddol yn ei gyfanrwydd gael ei ddatganoli yng Nghymru; croesawodd yr hyn roedd y Comisiynydd wedi'i nodi, hynny yw bod sawl maes lle gall partneriaid wneud mwy gyda'i gilydd yn y dirwedd ddatganoledig/ nad yw'n ddatganoledig bresennol.

- 3.31 Nododd y Comisiynydd Michael, er nad yw'r Prif Gwnstablaid yn wleidyddol, fod y Comisiynwyr yng Nghymru o blaid datganoli ac yn fwy na pharod i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau, petai'r System Cyfiawnder Troseddol yn cael ei datganoli, fod Plismona a Llywodraeth Cymru yn y sefyllfa orau i bontio, er budd pobl Cymru.
- 4. Y Wybodaeth Ddiweddaraf gan yr Uned Atal Trais (Jon Drake a Lara Snowdon)**
- 4.1 Gwnaeth Jon Drake, Cyfarwyddwr yr Uned Atal Trais a Lara Snowdon, Arweinydd Atal Trais Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n gweithio i'r Uned, gyflwyno eu hunain, a gwnaethant ddiolch i'r Prif Weinidog am y gwahoddiad i siarad yn y cyfarfod.
- 4.2 Cafwyd cyflwyniad yn rhoi trosolwg o ddatblygiad a chynnydd yr uned ers iddi gael ei sefydlu. Y genhadaeth yw atal trais ledled Cymru drwy roi dull gweithredu iechyd y cyhoedd ar waith.
- 4.3 Roedd yr agweddau allweddol ar y cyflwyniad yn cynnwys adolygu polisïau, graddfa'r trais, pwysigrwydd defnyddio dull Iechyd y Cyhoedd a gweithio mewn partneriaeth.
- 4.4 Cydnabuwyd bod lefel y trais wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y pandemig ac, er bod yr Uned wedi'i chyfyngu o ran comisiynu mentrau yn ardal De Cymru, nad oedd hynny wedi atal yr uned rhag edrych ar gyfleoedd ledled Cymru yn y dyfodol a siarad â phartneriaid perthnasol.
- 4.5 Clywodd yr aelodau fod yr Uned yn gweithio gyda dwy nyrs sy'n mynd ati'n benodol i ymgysylltu â dioddefwyr trais a thrwy hynny y bu lleihad sylweddol yn nifer y derbyniadau mynych.
- 4.6 Nodwyd nad oes un ateb, nad oes un asiantaeth a fydd yn llwyddo i drechu trais, ond mae'n effeithio ar bob gwasanaeth cyhoeddus ac yn effeithio ar ormod o bobl. Gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru, y Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel a'r Uned Atal Trais, mae awydd gwirioneddol i newid cyfeiriad a newid ymddygiadau treisgar yng Nghymru mewn partneriaeth drwy ddull ataliol newydd.
- 4.7 Gwnaeth y Comisiynydd Michael ddiolch am y cyflwyniad a nododd y dylai trais difrifol fod ar y Rhaglen Waith ar gyfer y bwrdd hwn wrth symud ymlaen.
- 4.8 Gwnaeth DPCC Wools ddiolch i'r Uned am y gwaith sylweddol a wnaed hyd yn hyn a gwnaeth gefnogi'r Glasbriant Atal Trais a awgrymwyd yn y cyflwyniad gan nodi y byddai'n cydweddu'n dda â Glasbriant VAWDASV.
- 4.9 Dywedodd Jo Hopkins y byddai'n ddefnyddiol wrth symud ymlaen petai eglurder ar draws y bwrdd ynghylch ystyr 'atal'.

- 4.10 Roedd gan ICC gytundeb blaenorol i ddatblygu strategaeth atal i Gymru (mewn egwyddor) a gafodd ei llywio gan grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i gadeirio gan Claire Bennett.
- 4.11 Trafodwyd arwyddocâd strategaeth VAWDASV a chytunwyd ei bod o ddiddordeb i bawb a oedd yn bresennol.

4.12 Codwyd tri argymhelliad yn ystod y cyflwyniad:

4.12.1 *Ymrwymiad penodol i atal trais mewn partneriaeth ar draws y dirwedd ddatganoledig ac nad yw'n ddatganoledig.*

Nododd y Prif Weinidog fod gan holl aelodau'r Bwrdd ddiben a rennir. Croesawodd sylwadau'r Comisiynydd Michael y dylai Atal Trais fod yn rhan o Raglen Waith y Bwrdd hwn. Cadarnhaodd y Prif Weinidog a'r Dirprwy Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn ymrwmo'n benodol i atal trais, gan gydnabod y cyfle gwirioneddol i ymgysylltu â chamddefnyddio sylweddau.

Cam Gweithredu 3: Atal Trais i fod yn rhan o Raglen Waith BPPC

4.12.2 *Llunio Glasbrint Atal Trais Cymru Gyfan. Arweinydd yr Uned yn gweithio gyda Swyddogion a Phartneriaid Llywodraeth Cymru.*

Gofynnodd y Prif Weinidog i Jane Hutt, AS, a DPCC Wools weithio gyda'r Uned i edrych ar gynnwys ychwanegol a ffordd ymlaen ar gyfer Glasbrint Atal Trais.

Cam Gweithredu 4: Jane Hutt, AS, a DPCC Wools i weithio gyda Jon Drake i edrych ar gynnwys ychwanegol a ffordd ymlaen ar gyfer Glasbrint Atal Trais.

4.12.3 *Llunio canllawiau penodol i Gymru ar atal trais mewn partneriaeth a llunio asesiadau o anghenion strategol lleol. Arweinydd yr Uned yn gweithio gyda Swyddogion a Phartneriaid Llywodraeth Cymru.*

Nododd y Prif Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn awyddus i weithio ar hyn, ond bod cynifer o agweddau ar y gwaith y bydd angen eu hystyried ymhellach, drwy'r rhaglen waith a thrafodaethau parhaus. Nododd y Prif Weinidog ei fod yn edrych ymlaen at glywed mwy am gynigion a chynnydd ymhen amser.

5 Unrhyw faterion sy'n codi o gyfarfod Plismona yng Nghymru y dylid eu huwchgyfeirio

- 5.1 Dywedodd y Comisiynydd Michael fod y cyfarfod yn rhoi pwyslais ar Ddiogelwch Cymunedol a'r buddiannau y mae heddluoedd yn eu gweld o ganlyniad i'r chwa o awyr iach sydd ynghlwm wrth y gwaith hwn.

- 5.2 Mae'r trafodaethau ynghylch Cymorth Awyr yr Heddlu yn parhau, gan adeiladu ar yr ymgysylltu blaenorol â Ken Skates AS. O ganlyniad, ystyrir pa gyfleoedd sydd yng Nghymru o ran dyfodol darparu cymorth awyr.
- 5.3 Cyhoeddodd y Comisiynydd Michael y byddai'n trosglwyddo awenau cadeirio Plismona yng Nghymru i'r Comisiynydd Dafydd Llywelyn ar ôl y cyfarfod hwn.
- 5.4 Yn dilyn cadeiryddiaeth y Comisiynydd Llywelyn, byddai'r Comisiynydd Cuthbert yn cymryd yr awenau, ac yna'r Comisiynydd Dunbobbin.
- 5.5 Y Prif Gwnstabl Pam Kelly yw Cadeirydd Grŵp Prif Swyddogion Cymru o hyd a hynny tan fis Ionawr 2022, pan fydd yn trosglwyddo'r awenau i'r Prif Gwnstabl Jeremy Vaughan.
- 5.6 Gwnaeth y Prif Weinidog ddiolch i'r Comisiynydd Michael am ei holl gymorth ac arweinyddiaeth mewn perthynas â Phlismona yng Nghymru ar y Bwrdd hwn a thu hwnt.

6 **Diweddariadau gan bartneriaid yn ôl eithriad:**

- 6.1 Tynnodd DPCC Thomas sylw at yr adolygiad byw o Wasanaethau Trais Rhywiol ac Ymosodiadau Rhywiol a bod bellach gyfle i gynnwys Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru. Nodwyd y byddai DPCC Thomas yn sicrhau bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn cael eu cynnwys yn y trafodaethau hyn.
Cam Gweithredu 5: DPCC Eleri Thomas i sicrhau bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn rhan o'r adolygiad o Wasanaethau Trais Rhywiol ac Ymosodiadau Rhywiol
- 6.2 Roedd Chris Jennings am ddiolch yn swyddogol i swyddogion Llywodraeth Cymru am eu cymorth mewn perthynas â Hillside.

7 **Unrhyw Fater Arall**

- 7a. Nodwyd bod y camau gweithredu o 18 Mawrth 2021 wedi'u cwblhau neu'n mynd rhagddynt.
- 7b. Nodwyd a chytunwyd y byddai Camddefnyddio Sylweddau a Mudo Strategol Fforymau Cydnerthedd Lleol yn dychwelyd i gyfarfod bwrdd yn y dyfodol fel y nodwyd mewn camau gweithredu blaenorol.
- 7c. Gwnaeth T/CC Parmenter ddiolch i Lywodraeth Cymru am ei chefnogaeth barhaus o ran Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ac am gefnogi Plismona yn y Gymdogaeth yng Nghymru.

8 **Dyddiad ac amser y cyfarfodydd nesaf**

Dydd Iau 23 Medi- 13:30- 15:30

Not protectively marked – Heb farc gwarchod

Dydd Iau 2 Rhagfyr- 13:30- 15:30